Archwilio Cymru
Audit Wales

# Asesiad Strwythuredig 2020 – **Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe**

Blwyddyn archwilio: 2020

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1959A2020-21

Mae'r ddogfen hon wedi'i pharatoi ar gyfer ei defnyddio'n fewnol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe fel rhan o waith a wneir/sydd i'w wneud yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol amrediad eang o swyddogaethau archwilio a swyddogaethau cysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff y GIG yng Nghymru, ac adrodd i'r Senedd ar y graddau y mae'r sefydliadau hynny wedi defnyddio'u hadnoddau mewn modd cynnil, effeithlon ac effeithiol. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw, ac at y diben o fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw torfol anstatudol am Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru'n endid cyfreithiol ac nid oes ganddo unrhyw swyddogaethau ynddo'i hun.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2020

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu weithiwr arall yn rhinwedd ei swydd unigol, neu â thrydydd parti, yn derbyn unrhyw atebolrwydd mewn cysylltiad â'r adroddiad hwn.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, cyfeirir at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae cod adran 45 yn cyflwyno’r arfer, o safbwynt ymdrin â cheisiadau, sy’n ddisgwyliedig gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â datgelu neu ailddefnyddio’r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Adroddiad manwl

Trefniadau llywodraethu 7

Rheoli adnoddau ariannol 14

Cynllunio gweithredol 22

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canfyddiadau gwaith asesu strwythuredig yr Archwilydd Cyffredinol yn 2020 ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (y Bwrdd Iechyd). Ymgymerwyd â'r gwaith er mwyn helpu i gyflawni gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol, o dan adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, i fod yn fodlon bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau eu bod yn defnyddio'u hadnoddau mewn modd cynnil, effeithlon ac effeithiol.

2 Digwyddodd gwaith asesu strwythuredig eleni yn ystod adeg pan oedd cyrff y GIG yn ymateb i'r heriau digynsail a pharhaus a ddaeth yn sgil y pandemig COVID-19. Ar 13 Mawrth 2020, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fframwaith o gamau gweithredu i helpu i baratoi'r system ar gyfer yr ymchwydd disgwyliedig yn yr achosion o COVID-19. Roedd y fframwaith hwn yn cynnwys atal gweithgareddau a gynllunnir nad oeddent yn rhai brys, a llacio'r targedau a threfniadau monitro ar draws y system iechyd a gofal. Cafodd trefniadau cyllid brys eu cyflwyno hefyd er mwyn hwyluso'r amrediad eang o gamau gweithredu angenrheidiol ar gyfer ymateb ar fyrder i'r pandemig COVID-19.

3 Cytunwyd ar gylchoedd cynllunio byrrach ar gyfer 2020-21, y'u cefnogwyd gan arweiniad chwarterol a amlinellodd ystyriaethau allweddol ar gyfer cynllunio cyfnod nesaf y pandemig, ar gyfer parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol, ac ar gyfer y symudiad tuag at ailgyflwyno gwasanaethau rheolaidd yn raddol.

4 Cafodd ein gwaith[1] ei gynllunio yng nghyd-destun yr ymateb parhaus i'r pandemig er mwyn sicrhau dull ymarferol priodol digonol i helpu'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol a lleihau'r effaith ar gyrff y GIG ar yr un pryd wrth iddynt barhau i ymateb i gyfnod nesaf y pandemig COVID-19. Y ffocws allweddol o safbwynt y gwaith yw canolbwyntio ar y trefniadau corfforaethol ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio mewn modd effeithlon, effeithiol a chynnil. Rhoddodd archwilwyr sylw hefyd i'r cynnydd a wnaed wrth fynd i'r afael ag argymhellion blaenorol[2] lle'r oedd y rhain yn berthnasol i agweddau pwysig ar waith llywodraethu a rheoli arian, yn enwedig o dan yr amgylchiadau presennol.

5 Mae'r adroddiad yn gosod ein canfyddiadau o dan dair thema:

- trefniadau llywodraethu;
- rheoli adnoddau ariannol; a
- chynllunio gweithredol: i gefnogi'r ymateb parhaus i'r pandemig wrth gydbwyso hyn yn erbyn darparu gwasanaethau hanfodol eraill.

[1] Cafodd y modd o weithredu'n gwaith ei gydlynu â'r adolygiad cyflym ar lywodraethu gan yr adran archwilio mewnol, sy'n cynnwys dulliau pellach o brofi rheolaethau allweddol y'u nodir yn yr adroddiad hwn.

[2] Gellir dod o hyd i argymhellion asesiadau strwythuredig blaenorol yn ein hadroddiad ar gyfer 2019. Gellir dod o hyd i ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'n hargymhellion ar gyfer 2019 yma.

# Negeseuon allweddol

6 Gwnaethom ganfod bod y Bwrdd Iechyd wedi cynnal gwaith llywodraethu da yn ystod y pandemig. Roedd gwaith datblygu cyflym ar fodelu data wedi llywio dull ystwyth o wneud penderfyniadau a chynllunio ar gyfer ailddechrau gwasanaethau. Gwnaeth y sefydliad gynnal ffocws ar ei berfformiad a'i sefyllfa ariannol a gwnaethpwyd gwelliannau parhaus ar gyfer sicrhau gwell gafael a rheolaeth. Nid yw'r gwelliannau hyn wedi sicrhau'r gwelliant angenrheidiol mewn perfformiad eto, ac nid yw effaith lawn COVID-19 eto'n hysbys. Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi colli golwg ar ei gynllun ar gyfer gwasanaethau clinigol na'i uchelgeisiau ar gyfer trawsnewid. Mae rhaglen ailosod ac adfer yn defnyddio'r hyn a ddysgwyd o ddilyn dulliau arloesol yn ystod y pandemig i lywio model gweithredu'r sefydliad at y dyfodol.

7 Mae gwaith llywodraethu da wedi parhau ar y cyfan, ac mae wedi gweithio gyda fframweithiau diwygiedig i gyflawni cyfrifoldebau'r Bwrdd yn ystod yr ymateb i COVID-19. Drwy drefniadau a addaswyd, gwnaeth y Bwrdd barhau i weithredu mewn modd tryloyw, gan sicrhau bod gwaith craffu effeithiol yn digwydd a chan ddefnyddio data i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau mewn modd effeithiol. Cafodd y sefydliad ei arwain gan Fwrdd gwydn, a bu parhad yn y systemau sicrhau hanfodol yn ystod y pandemig, ynghyd â ffocws cadarn ar reoli risg. Bu parhad yn yr oruchwyliaeth dros drefniadau llywodraethu, a chafodd pwyllgorau a oedd wedi'u seguro dros dro eu hailddechrau.

8 Mae'r Bwrdd Iechyd yn wynebu her ariannol sylweddol, ond mae wedi cryfhau agweddau pwysig ar waith rheoli ariannol ac wedi cynnal rheolaethau ariannol a gweithdrefnau adrodd a chraffu da, gan gynnwys olrhain gwariant sy'n gysylltiedig â COVID-19. Gyda diffyg o £16.3 miliwn, ni wnaeth fodloni ei ddyletswyddau ariannol yn 2019-20 ac mae'n rhagweld y bydd diffyg o £24 miliwn yn 2020-21. Mae ansicrwydd ynghylch costau parhaus sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn debygol o arwain at ddiffyg mwy o faint oni cheir cyllid ychwanegol. Cafodd cyllidebau eu hailsylfaenu ar gyfer 2020-21 a cheisiodd y Bwrdd Iechyd wneud gwelliannau o safbwynt ei waith rheoli ariannol i gryfhau ei afael a'i reolaeth. Yr her, bellach, yw ymgorffori'r gwelliannau hyn yn gyflym er mwyn cefnogi adferiad ariannol y sefydliad. Fodd bynnag, bydd angen ail-lunio'r cynllun ar gyfer mantoli'r cyfrifon ymhen tair blynedd yn sgil COVID-19, ac o ganlyniad i'r sylfaen gostau lai o faint y gellir gwneud arbedion ohoni yn dilyn newid ffiniau Pen-y-bont ar Ogwr.

9 Caiff gwaith cynllunio gweithredol ei lywio gan ganlyniadau modelu data, a cheir trefniadau i fonitro cynnydd a pherfformiad, ac ymrwymiad cadarn i ymgysylltu â rhanddeiliaid a gweithio rhanbarthol. Mae cynlluniau gweithredol yn cefnogi'r broses o ailddechrau gwasanaethau ac maent yn cydnabod blaenoriaethau o safbwynt y cynllun gwasanaethau clinigol. Ail-luniodd y Bwrdd Iechyd ei ddull o adrodd ar berfformiad ac mae wrthi'n datblygu fframwaith rheoli perfformiad newydd sy'n seiliedig ar y pedwar cwadrant niwed. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cefnogi llesiant staff a wynebodd heriau'r gweithlu, er y byddai gallu'r gweithlu yn risg pe byddai brig arall mewn achosion o COVID-19. Mae'r hyn a ddysgwyd yn rhan

allweddol o raglen ailosod ac adfer y sefydliad. Mae ffyrdd newydd o weithio a ddeilliodd o'r pandemig yn llywio'r model gweithredu at y dyfodol, ond bydd angen ei alinio â'r rhaglen drawsnewid flaenorol.

10 Nid ydym wedi gwneud argymhellion newydd sy'n seiliedig ar ein gwaith ar gyfer 2020, ond rydym wedi nodi cyfleoedd ar gyfer gwella yn yr adroddiad hwn. Byddwn yn adolygu cynnydd yn erbyn y rhain, a'r argymhellion sy'n weddill o 2019, fel rhan o'n gwaith ar gyfer 2021.

# Adroddiad manwl

## Trefniadau llywodraethu

11 Rhoddodd yr asesiad strwythuredig ystyriaeth i allu'r Bwrdd Iechyd i gynnal trefniadau llywodraethu cadarn wrth orfod ymateb yn gyflym i'r heriau digynsail a ddaeth yn sgil y pandemig.

12 Gwnaethom ganfod fod: **Y Bwrdd Iechyd wedi cynnal gwaith llywodraethu da ar y cyfan wrth weithio gyda fframweithiau diwygiedig i gyflawni cyfrifoldebau'r Bwrdd yn ystod yr ymateb i COVID-19.**

### Cyflawni busnes yn effeithiol

#### Addasodd y Bwrdd ei drefniadau llywodraethu er mwyn parhau i weithredu mewn modd tryloyw, cefnogi dull ystwyth o wneud penderfyniadau, a sicrhau bod craffu ac arweinyddiaeth effeithiol yn digwydd yn ystod yr ymateb i'r pandemig

##### Mae'r Bwrdd wedi cymryd camau i gyflawni busnes mewn modd agored a thryloyw

13 Yn sgil y pandemig COVID-19, nid yw'r Bwrdd wedi gallu cynnal cyfarfodydd yn gyhoeddus, ond symudodd yn gyflym tuag at gynnal cyfarfodydd rhithwir. Nid yw'r cyhoedd wedi gallu cyflwyno cwestiynau i gyfarfodydd ymlaen llaw, ac mae'r Bwrdd wedi darparu cofnod amserol o'i gyfarfodydd ar blatfformau'r cyfryngau cymdeithasol cyn cyhoeddi'r nodiadau ar ei wefan. Mae papurau/cofnodion y Bwrdd a phwyllgorau wedi parhau i gael eu cyhoeddi ar y wefan fel arfer.

14 Rhoddwyd ystyriaeth i ymddygiad safonol cyfarfodydd rhithwir, a defnyddiwyd swyddogaethau meddalwedd gan aelodau'r Bwrdd i godi cwestiynau yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau. Mae'r Cyngor Iechyd Cymuned yn parhau i gyfrannu at gyfarfodydd y Bwrdd. Bu ychydig o broblemau cysylltedd bach o safbwynt TG, ond nid yw'r rhain wedi rhwystro'r cyfarfodydd yn ormodol, ac mae aelodau'n nodi bod y cymorth TG yn ardderchog. Recordiodd y Bwrdd ei gyfarfod ar gyfer mis Mehefin a'i ffrydio'n fyw ym mis Gorffennaf gan ddefnyddio'i sianel deledu ar YouTube. Mae hyn yn adlewyrchu ffocws y Bwrdd ar dryloywder cyhoeddus, er y gallai hysbysiadau cyhoeddus fod yn fwy eglur ac yn fwy amserol.

##### Mae trefniadau llywodraethu diwygiedig wedi cefnogi dull cyflym o wneud penderfyniadau a gweithdrefnau craffu effeithiol

15 Gweithredodd y Bwrdd Iechyd ei gynllun digwyddiadau mawr, ac roedd wedi sefydlu strwythur gorchymyn a rheoli cadarn erbyn mis Mawrth 2020. O dan arweiniad y Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus, mae'r grŵp Gorchymyn Aur yn cyfarfod yn rheolaidd, a chafodd cyfarfodydd dyddiol eu cynnal yn ystod brig yr achosion o COVID-19. Roedd trefniadau'r ymateb brys i'r pandemig yn seiliedig ar

raglen eglur a seilwaith cefnogol (gan gynnwys unedau ymateb Arian (ar draws y Bwrdd Iechyd) ac Efydd (uned ddarparu) a chanolfan orchymyn COVID-19. Cafodd offeryn modelu data rhagfynegol byw ei ddatblygu'n fewnol yn gyflym er mwyn llywio'r broses o wneud penderfyniadau. Mae'r offeryn, sydd ar gael i holl aelodau'r Bwrdd, yn darparu gwybodaeth statws fyw ac amcanestyniadau yn erbyn amrediad o ddangosyddion, gan gynnwys gallu, galw, cyfraddau heintio COVID-19, y gweithlu, ac argaeledd/gofynion o safbwynt cyffuriau a chyfarpar hanfodol. Yn ogystal ag adrodd ar y sefyllfa ddyddiol (SITREP), gwnaeth y grŵp Gorchymyn Aur adrodd yn ffurfiol i'r Bwrdd bob mis.

16 Rhoddodd y Bwrdd ystyriaeth lawn i arweiniad Llywodraeth Cymru ar gyflawni cyfrifoldebau pwyllgor y Bwrdd yn ystod y pandemig COVID-19. Ym mis Ebrill, cymeradwyodd y Bwrdd drefniadau diwygiedig i gefnogi dull ystwyth o wneud penderfyniadau a lleihau biwrocratiaeth ddiangen na fyddai'n peryglu'r prosesau llywodraethu. Roedd y newidiadau, a oedd wedi'u hwyluso gan amrywio rhannau o'r rheolau sefydlog dros dro, yn cynnwys y canlynol:

- symleiddio agendâu'r Bwrdd a phwyllgorau a chynyddu pa mor aml roedd y Bwrdd yn cyfarfod i unwaith y mis;
- adolygu'r pwyllgorau gan gynnal cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ddwywaith y mis[3] a gwneud pwyllgorau eraill yn segur dros dro, ac adrodd ar faterion a oedd yn ymwneud â chyllid, perfformiad a'r gweithlu i'r Bwrdd yn uniongyrchol;
- cytuno ar egwyddorion gwaith, gan gynnwys cysylltiad dyddiol â'r cadeirydd/Prif Swyddog Gweithredol, briffiau aelodau annibynnol wythnosol, cysylltiadau rhwng yr is-gadeirydd ag arweinwyr gweithredol ym meysydd gofal sylfaenol ac iechyd meddwl, ac amrediad o fathau o gyfathrebu rhwng y Prif Swyddog Gweithredol/cadeirydd a staff, Aelodau Seneddol, arweinyddion a Phrif Swyddogion Gweithredol awdurdodau lleol, ac arweinyddion y Cyngor Iechyd Cymuned;
- pennu manylion y broses o ran camau gweithredu gan y Cadeirydd ar gyfer materion brys; a
- darparu ar gyfer cymeradwyo unrhyw amrywiaethau angenrheidiol ym mholisi adnoddau dynol.

17 Bu presenoldeb llawn yng nghyfarfodydd byrrach y Bwrdd a phwyllgorau a gwnaethant ganolbwyntio ar faterion sy'n hanfodol i'r busnes, ac fe'u hwyluswyd gan agendâu/papurau a oedd wedi'u symleiddio. Mae'r wybodaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi penderfyniadau ac i roi sicrwydd ar faterion yn ymwneud ag ansawdd, cyllid a pherfformiad wedi bod yn ddigon amserol, a chafodd y camau gweithredu, a busnes arall a gofnodwyd cyn COVID-19, eu dogfennu a'u gohirio hyd nes adeg fwy priodol. Yn ogystal â briffiau aelodau annibynnol, gwnaeth pob un o'r

[3] Yn sgil cynnydd mewn busnes, ailddechreuodd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch gynnal cyfarfodydd yn fisol, a gwnaeth cyfarfod ychwanegol y Pwyllgor Archwilio gefnogi'r gwaith o graffu ar y cyfrifon terfynol.

cadeiryddion pwyllgorau gyfarfod ag arweinyddion gweithredol. Canfyddodd ein gwaith bod aelodau'r Bwrdd yn meddu ar ddealltwriaeth gyson o safbwynt y trefniadau diwygiedig. Gwnaethom hefyd arsylwi ar achosion o graffu a herio effeithiol yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau.

18 Bu defnydd cyfyngedig o safbwynt camau gweithredu gan y Cadeirydd, ond lle cymerwyd camau, ceir cofnod o benderfyniadau, tystiolaeth o graffu gan aelodau annibynnol, a chadarnhad dilynol gan y Bwrdd. Mae cofnodion penderfyniadau hefyd wedi'u cynnal ar gyfer gwariant sy'n gysylltiedig â COVID-19 (a drafodir yn ddiweddarach), ac mae Gwasanaeth Llyfrgell y Bwrdd Iechyd wedi cynnal cofnod o arweiniad Llywodraeth Cymru ynghylch COVID-19.

## Mae'r Bwrdd wedi cynnal goruchwyliaeth dros ei drefniadau llywodraethu gyda ffocws ar ddysgu a gwella

19 Mae'r trefniadau llywodraethu diwygiedig wedi parhau i gael eu hadolygu gan y cadeirydd, y prif weithredwr a'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol. Ailddechreuodd y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch gynnal cyfarfodydd ym mis Mai er mwyn goruchwylio materion a phroblemau iechyd a diogelwch pwysig a oedd yn gysylltiedig â COVID-19. Ym mis Mehefin, cymeradwyodd y Bwrdd y penderfyniad i ailddechrau'r pwyllgorau eraill a oedd wedi bod yn segur. Mae cynlluniau gwaith pwyllgorau wrthi'n cael eu hadolygu ac mae eitemau'r cofnod, o safbwynt y camau gweithredu a gafodd eu gohirio, wrthi'n cael eu hailamserlennu.

20 Gwnaeth y Bwrdd asesu ei gydymffurfiaeth â gofynion Llywodraethu Corfforaethol mewn Adrannau Llywodraeth Ganolog: Cod Arfer Da gan Drysorlys ei Mawrhydi, a'i chadarnhau, yn ystod 2019-20, yn ôl yr hyn sy'n ofynnol yn Adroddiad Atebolrwydd y sefydliad i Lywodraeth Cymru.

21 Mae archifydd wrthi'n cael ei gyflogi i gofnodi'r holl benderfyniadau a wneir gan y grŵp Gorchymyn Aur ar gyfer y dyfodol. Yn ogystal, gallai'r cofnod lywio gwaith cynllunio ar gyfer gwydnwch mewn argyfwng at y dyfodol.

22 Myfyriodd y Bwrdd ar ffyrdd newydd o weithio yn ystod y pandemig, a sefydlodd raglen ailosod ac adfer i nodi pa nodweddion arloesol ac arferion y dylid eu cadw wrth symud tuag at y cyfnod adfer a'r tu hwnt (trafodir hyn yn rhan 3). Mae'r Bwrdd hefyd wedi nodi ei fwriad i wneud y canlynol:

- cadw gwaith rhithwir, agendâu sydd â ffocws, a briffiau aelodau annibynnol rheolaidd; ac
- adeiladu ar y dull gwell o weithio mewn partneriaeth a gafodd ei feithrin drwy gydol y pandemig.

### Mae Bwrdd sy'n sefydlog ac yn wydn wedi arwain y sefydliad yn ystod yr ymateb i COVID-19, ond mae newidiadau sylweddol i'r aelodaeth weithredol ar y gweill

23 Yn ystod ein gwaith maes, rydym wedi arsylwi ar Fwrdd cydlynol, a chawsom wybod am ddull cefnogol yr aelodau annibynnol, a oedd yn cydnabod y pwysau sylweddol yr oedd swyddogion yn eu hwynebu. Er na roddwyd eu rolau ar waith, penodwyd dirprwy cyntaf ac ail ddirprwy yn y cynllun dirprwyo er mwyn sicrhau gwydnwch a pharhad busnes. Gyrrodd y tîm gweithredol ymateb sefydliadol drwy arfer dull system gyfan wrth hysbysu aelodau annibynnol yn llawn ac yn barhaus am y sefyllfa, y problemau a'r risgiau drwy'r mecanweithiau a amlinellwyd uchod.

24 Wrth i'r sefydliad symud tuag at gyfnod ailosod ac adfer y pandemig, bydd tri chyfarwyddwr gweithredol yn ymddeol rhwng mis Gorffennaf a mis Rhagfyr 2020, ac mae'r Cyfarwyddwr Cyllid yn benodiad dros dro ers mis Chwefror. Mae'r Bwrdd Iechyd yn dilyn dull sy'n seiliedig ar risg i sicrhau parhad ac i osgoi unrhyw fylchau o safbwynt yr arweinyddiaeth weithredol. Mae'r broses o recriwtio ar gyfer Prif Swyddog Gweithredol newydd yn mynd rhagddi, a disgwylir penodi yn gynnar ym mis Hydref. Mae'r broses o recriwtio Cyfarwyddwr Cyllid parhaol hefyd yn mynd rhagddi, a gwneir penodiadau dros dro ar gyfer y swydd nyrsio gweithredol a'r swydd cyfarwyddwr gweithlu. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn bwriadu penodi Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus er mwyn sicrhau mwy o wydnwch at y dyfodol mewn perthynas ag iechyd y boblogaeth.

# Systemau sicrwydd

## Mae systemau sicrwydd hanfodol wedi cael eu cynnal yn ystod yr ymateb i COVID-19, gyda ffocws cadarn ar reoli risg

### Gwnaeth y Bwrdd Iechyd addasu ei system o reoli risg yn effeithiol er mwyn rheoli ffrwd newydd o risgiau sy'n gysylltiedig â COVID-19

25 Gwnaeth y Bwrdd Iechyd gyflawni gwaith sylweddol ar reoli risg yn 2019 a lluniwyd Cofrestr Risg Bwrdd Iechyd wedi'i diweddaru (HBRR) a Pholisi Rheoli Risg diwygiedig. Er yr amlygodd yr adran archwilio mewnol agweddau ar weithredu weithredol y gellid eu cryfhau (mis Ionawr 2020), mae'r gwaith corfforaethol wedi sicrhau bod y Bwrdd Iechyd mewn sefyllfa dda. Ym mis Ebrill 2020, adolygodd y Bwrdd Gofrestr Risg y Bwrdd Iechyd a chynyddodd ei barodrwydd i dderbyn risg o 16 i 20 yn sgil y pandemig. Cymeradwyodd y Bwrdd hefyd y trefniadau ar gyfer adrodd ar risgiau sy'n gysylltiedig â COVID-19, a'u rheoli, drwy'r strwythurau gorchymyn ar gyfer ymateb i argyfwng.

26 Cafodd cofnodion RAID (risgiau, camau gweithredu, problemau a phenderfyniadau) eu cynnal ar gyfer pob grŵp Gorchymyn Arian a phob uned o

fewn y strwythur gorchymyn, ac roedd gwaith adrodd ar risgiau i'r ganolfan orchymyn COVID-19 yn digwydd yn ddyddiol. Roedd unedau darparu hefyd yn cynnal cofnodion risg ar gyfer eu hardaloedd, gan ddarparu adroddiadau ar y sefyllfa (SITREPau) i'r grŵp Gorchymyn Aur ar gyfer triongli risgiau a allai gael effaith ar y system gyfan. Cynhaliodd y ganolfan orchymyn COVID-19 brif gofnod o risgiau, ac uwchgyfeiriodd y risgiau hynny y cafodd eu hadrodd drwy gofnodion RAID dyddiol i'r grŵp Gorchymyn Aur. Adolygodd y grŵp Gorchymyn Aur y gofrestr o risgiau sy'n gysylltiedig â COVID-19 a oedd wedi'u graddio'n 20 neu uwch yn ystod pob cyfarfod.

27 Aeth y trefniadau rheoli risg rhagddynt, ar gyfer risgiau nad ydynt yn gysylltiedig â COVID-19, yn ôl yr hyn sydd wedi'i amlinellu yn y Polisi Rheoli Risg. Mae arweinydd gweithredol yn cael ei ddynodi ar gyfer pob risg sefydliadol, ac mae'r risg hefyd yn cael ei dynodi naill ai i'r Bwrdd neu i bwyllgor goruchwylio penodol. Yn ystod y pandemig, adroddwyd ar y risgiau sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn ystod pob cyfarfod Bwrdd, a chraffwyd ar Gofrestr Risg y Bwrdd Iechyd yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd neu bwyllgor. Mae pob un o'r risgiau sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn cyfeirio'n ôl at gofnod yng Nghofrestr Risg y Bwrdd Iechyd ar gyfer COVID-19 yn y modiwl risg Datix. Mae risgiau sydd â sgôr uchel yn cynnwys yr anallu posibl i sicrhau cyfarpar digonol (gan gynnwys cyfarpar diogelu personol), gweithlu digonol, meddyginiaethau digonol a gallu digonol. Mae risgiau newydd sydd wedi'u hychwanegu at Gofrestr Risg y Bwrdd Iechyd yn cynnwys cynnydd mewn achosion lle nad yw gofynion iechyd wedi'u bodloni, a risg ariannol pe na ellir defnyddio'r cyllid sydd ar gael i dalu am y gost o fynd i'r afael â'r pandemig. Mae risgiau COVID-19 eraill, e.e. seiberddiogelwch, hefyd yn destun craffu.

28 Cyn y pandemig COVID-19, symudodd y cyfrifoldeb dros risg gorfforaethol i gylch gwaith y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol fel bod cysylltiad gwell rhwng risgiau a Fframwaith Sicrwydd Bwrdd newydd, a chafodd Pennaeth Cydymffurfiaeth ei benodi i gefnogi'r gwaith o ddatblygu fframwaith deddfwriaethol. Fodd bynnag, o gofio natur frys yr ymateb i'r pandemig, ni chafodd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ei roi ar waith yn llawn ym mis Ebrill yn ôl y bwriad, ac roedd y systemau a oedd eisoes yn bodoli yn parhau gyda chysylltiad clir i amcanion corfforaethol a oedd wedi'u hymgorffori yng Nghofrestr Risg y Bwrdd Iechyd. Gan ein bod wedi nodi argymhelliad ynghylch rhoi Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ar waith yn flaenorol, byddwn yn cynnal gwaith dilynol ar gynnydd y flwyddyn nesaf.

## Mae ffocws ar ansawdd a diogelwch wedi parhau, ac mae'r Bwrdd a phwyllgorau wedi derbyn sicrwydd allweddol

29 Mae'r Bwrdd yn derbyn adroddiad misol sy'n cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am COVID-19. Mae adroddiadau, o leiaf, yn cynnwys gwybodaeth am ddiogelwch cleifion, gallu, atal a rheoli heintiau, y defnydd o staff, a diogelwch a llesiant staff a cheir trafodaethau penodol ar faterion fel cyfarpar diogelu personol, gallu ar gyfer ymchwydd mewn achosion, cadw pellter cymdeithasol, anghenion y boblogaeth, a mynediad i wasanaethau.

30 Mae'r rhan fwyaf o ofynion yr arweiniad gan Lywodraeth Cymru ar gyfer craffu ar ansawdd yn ystod y pandemig wedi'u bodloni drwy agenda'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. Mae adroddiadau sicrwydd rheolaidd ar faterion mewn meysydd allweddol fel Gweithio i Wella, atal a rheoli heintiau, a chydymffurfio â'r Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio hefyd yn parhau ochr yn ochr ag adrodd ac ystyried adolygiadau/camau gweithredu allweddol yn flynyddol. Lle nad yw'r eitemau a amlinellir yn arweiniad Llywodraeth Cymru wedi'u hystyried yn fanwl neu yn ystod cyfarfod pwyllgor yn ystod y pandemig, maent wedi derbyn sylw mewn fforymau eraill neu wedi'u hailamserlennu ar gynllun gwaith y pwyllgor. Er enghraifft:

- mae manylion am brosesau fel rhyddhau cleifion yn gyflym a systemau i asesu niwed i gleifion, risg, a blaenoriaethu clinigol yn cael eu hadolygu gan y grŵp Gorchymyn Aur, y Grŵp Sicrhau Diogelwch Ansawdd (QASAG), a'r grwpiau moeseg glinigol a chyfeirio, sydd hefyd yn goruchwylio arweiniad ac ystyriaethau moesegol y Coleg Brenhinol. Diben y gwaith o adrodd ar y materion hyn i'r pwyllgor oedd rhoi sicrwydd bod y systemau wedi'u gweithredu. Bydd angen i brosesau adrodd yn y dyfodol ganolbwyntio ar y canlyniadau.
- mae eitemau nad ydynt wedi'u cynnwys ar agendâu'r pwyllgor rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf yn cynnwys adolygiadau marwolaeth, archwiliad clinigol, dogfennaeth Na cheisier dadebru cardio-anadlol (DNACPR),[4] a'r wybodaeth y byddai'n sbarduno adolygiadau ar niwed clinigol. Roedd yr eitemau hyn wedi'u cynnwys yn y rhaglen waith cyn y pandemig COVID-19, ond mae dal fod angen ail-amserlennu rhai ohonynt er mwyn i'r pwyllgor graffu arnynt.

31 Mae cadeirydd y pwyllgor hefyd yn derbyn sicrwydd ychwanegol y tu allan i gyfarfodydd y pwyllgor drwy fynychu cyfarfodydd y grŵp Gorchymyn Aur ddwywaith yr wythnos (pan gaiff metrigau ansawdd eu hystyried fel rhan o waith adrodd ar sefyllfa'r dangosfwrdd) a chyfarfodydd â'r arweinyddion gweithredol, a thrwy friffiau aelodau annibynnol wythnosol. Mae'r rhain yn darparu gwybodaeth amserol am broblemau a risgiau ac yn cynnig cyfle i uwchgyfeirio'n gyflym os oes angen.

32 Mae gwaith craffu gan aelodau annibynnol yn dda, sy'n arddangos dealltwriaeth o'r problemau, a cheir trafodaethau sy'n cwmpasu amrediad eang o ystyriaethau ansawdd, gan gynnwys risg/niwed, mynediad i wasanaethau, a gofal iechyd ar gyfer y boblogaeth/gofal iechyd sylfaenol (yn enwedig yng nghyd-destun COVID-19). Er mai ffocws ysbyty acíwt a fu'n perthyn i'r ymateb i COVID-19, derbyniodd y pwyllgor ddiweddariadau gan yr Uned Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu a'r Uned Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol. Mae papurau'n ddigonol, ond mae'r pwyllgor yn parhau i fynd ar drywydd gwelliannau o safbwynt adroddiadau sicrwydd fel rhan o'r cynllun gwella ehangach yn dilyn ei weithdy yn 2019.

[4] Mae DNACPR yn ymwneud â phenderfyniadau ynghylch dadebru cardio-anadlol.

33 Roedd y Grŵp Sicrhau Diogelwch Ansawdd, sydd wedi'i arwain gan reolwyr, ac sy'n atebol i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, wedi parhau i weithredu, a derbyniodd adroddiadau ansawdd a diogelwch gan unedau gweithredol ac ystyriodd fanylion y mesurau a safonau diogelwch ansawdd. Fodd bynnag, ni wnaeth pob uned fynychu'r cyfarfodydd er mwyn cyflwyno'u hadroddiadau. Gan fod cryfhau'r trefniadau sicrhau diogelwch ansawdd yn argymhelliad blaenorol, byddwn yn asesu'r cynnydd a wnaed yn fwy manwl y flwyddyn nesaf.

34 Mae'r dangosfwrdd data ar gyfer COVID-19 yn cynnwys dangosyddion cynhyrchiant a diogelwch y gweithlu, a gafodd eu monitro gan y grŵp Gorchymyn Aur ac yr adroddwyd arnynt i'r Bwrdd. Mae'r dangosfwrdd hefyd yn ei gwneud yn bosibl adrodd ar gyfraddau atgyfeirio ac amserau aros, mesurau procsi o'r risg i gleifion o atal gwasanaethau arferol, neu achosion o beidio â defnyddio gwasanaethau er gwaethaf negeseua cyhoeddus. Caiff asesiadau effaith eu cynnal cyn gwneud penderfyniadau ar newidiadau i wasanaethau er mwyn ymateb i COVID-19, ac wrth ailddechrau gwasanaethau gofal a gynllunnir.

35 Mae ymgysylltu â chyrff proffesiynol a sefydliadau staff wedi'i ymgorffori yn rhaglenni Gorchymyn Aur, a derbyniodd y Bwrdd stori gan staff a stori gan gleifion ar effaith COVID-19 arnynt. Mae adrodd ar sicrwydd wedi amlinellu'r canlynol: y cymorth llesiant a ddarparwyd ar gyfer staff a gweithredu'r offeryn asesu risg COVID-19 i staff ar gyfer Cymru gyfan (ceir disgrifiad ohono yn rhan 3). Anogir staff i gwblhau eu hunanasesiadau, ond nid yw cyfraddau cwblhau a chanlyniadau wedi'u hadrodd eto.

## Er y cafodd y broses arferol o olrhain cynnydd yn erbyn argymhellion yr archwiliad ei hatal, mae'r sylw a roddir i adolygiadau sy'n ymwneud ag ansawdd, diogelwch neu reolaethau allweddol wedi parhau

36 Mae system hanesyddol dda yn ei lle ar gyfer olrhain i ba raddau y gweithredwyd argymhellion a chamau gweithredu archwiliadau mewnol ac allanol. Cafodd gwaith olrhain (a gwaith adrodd y Pwyllgor Archwilio) ei ohirio yn ystod yr ymateb i COVID-19, ac yn yr un modd gohiriwyd adolygiad o argymhellion archwilio mewnol nad oedd camau gweithredu wedi'u cymryd yn eu cylch. Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn adrodd bod unrhyw faterion brys sy'n gofyn am sylw uniongyrchol, a disgwylir y bydd y Pwyllgor Archwilio'n ailddechrau'r broses o adrodd ar ganlyniadau gwaith olrhain ym mis Medi.

37 Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi parhau i dderbyn canfyddiadau adroddiadau archwilio terfynol ac mae ymatebion rheolwyr i'r rhain wrthi'n cael eu llunio. Mae adolygiadau eraill sy'n berthnasol i ansawdd, diogelwch neu reolaethau allweddol hefyd wedi derbyn sylw. Er enghraifft, mae camau'n mynd rhagddynt mewn perthynas â chanfyddiadau TAVI a KPMG o ran rheolaeth ariannol.

38 Yn y blynyddoedd a fu, rydym wedi amlygu'r ffaith nad oes proses olrhain gwaith archwilio ar gyfer argymhellion sy'n deillio o adolygiadau rheoliadol eraill neu adolygiadau gan arolygiaethau eraill neu'r Coleg Brenhinol. Roedd y Bwrdd Iechyd

wedi bwriadu mynd i'r afael â hyn drwy ei waith datblygu cydymffurfiaeth ddeddfwriaethol ehangach, ond ni fu cynnydd yn y maes hwn yn ystod y cyfnod o ymateb i COVID-19.

# Rheoli adnoddau ariannol

39 Ystyriodd ein gwaith berfformiad ariannol y Bwrdd Iechyd, newidiadau i reolaethau ariannol yn ystod y pandemig, a threfniadau ar gyfer monitro perfformiad ariannol ac adrodd arno.

40 Canfyddom fod **y Bwrdd Iechyd yn wynebu heriau ariannol sylweddol, gan gynnwys y costau parhaus ar gyfer ymateb i COVID-19, ond mae wedi cryfhau agweddau ar ei waith rheoli ariannol ac wedi cynnal rheolaethau ariannol a gwaith adrodd ariannol effeithiol**.

## Cyflawni amcanion ariannol allweddol

### Er bod y Bwrdd Iechyd yn parhau i wynebu diffyg ariannol yn 2020-21 ac ansicrwydd dros gostau parhaus sy'n gysylltiedig â COVID-19, mae'n canolbwyntio ar wella'i sefyllfa ariannol i'r tymor hwy

#### Nid oedd y Bwrdd Iechyd yn gallu bodloni ei ddyletswyddau ariannol yn 2019-20, gan orffen y flwyddyn â diffyg o £16.3 miliwn

41 Dechreuodd y Bwrdd Iechyd flwyddyn ariannol 2019-20 gyda chynllun ar gyfer mantoli'r gyllideb, y cafodd ei gymeradwyo gan y Bwrdd, mewn egwyddor, ym mis Mawrth 2019. Er hynny, profodd y Bwrdd Iechyd bwysau gweithredol sylweddol ac, o ganlyniad, ym mis 10 adroddodd i Lywodraeth Cymru ei fod wedi rhagweld diffyg o £16.3 miliwn. Ni wnaeth y Bwrdd Iechyd gyflawni ei ddyletswydd statudol i fantoli'r gyllideb yn erbyn ei Derfyn Adnoddau Refeniw dros y tair blynedd hyd at 2019-20. Y sefyllfa alldro oedd diffyg o £16.3 miliwn ar gyfer 2019-20, gyda diffyg treigl tair blynedd o £58.6 miliwn.[5]

42 Cafodd gofyniad i sicrhau arbedion o £22 miliwn ei nodi ar ddechrau 2019-20, a chyflawnwyd arbedion o £19 miliwn, yr oedd £4.9 miliwn o'r swm yn arbedion na fyddai modd eu hailadrodd. Arbedwyd arian drwy arbedion uned, trwy gyfyngu ar gostau, a thrwy gyflawni mesurau effeithlonrwydd drwy gyfleoedd gwerth uchel, fel gwaith gwella effeithlonrwydd theatrau gwerth £0.5 miliwn. Arbedwyd tua £1.1 miliwn drwy swyddi gwag staff a ddalwyd yn erbyn gwaith datblygu gwasanaethau. Er gwaethaf yr arbedion hyn, bu gorwario o ganlyniad i bwysau cost sylweddol yn

[5] Caiff dyled hanesyddol ei dileu gan Lywodraeth Cymru yn dilyn cyhoeddiad gweinidogol diweddar, ar yr amod fod y Bwrdd Iechyd yn cyflawni ei raglen ariannol sylfaenol ar gyfer 2020-21 ac yn cyflawni ei ddyletswydd i fantoli'r gyllideb dros dair blynedd.

ystod y flwyddyn, yn ogystal ag effaith yr annarbodion a oedd yn gysylltiedig â newid ffin Pen-y-bont ar Ogwr.

43 Wrth fod yn destun ymyrraeth wedi'i thargedu[6] ers mis Medi 2016, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithredu trefniadau cynllunio blynyddol yn ôl yr hyn a gytunwyd â Llywodraeth Cymru wrth weithio i ddatblygu Cynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd y byddai modd ei gymeradwyo a chynllun ariannol. Er ei fod yn gwneud cynnydd tuag at y nod hwn, nid oedd cynlluniau tair blynedd a gymeradwywyd yn eu lle ar gyfer y cyfnod rhwng 2019-20 a 2021-22.

## Ailsylfaenodd y Bwrdd Iechyd gyllidebau ar gyfer 2020-21, a dechreuodd y flwyddyn gan ragweld diffyg o £24 miliwn, sy'n debygol o gynyddu oni cheir cyllid ychwanegol ar gyfer talu costau sy'n gysylltiedig â COVID-19

44 Rhannwyd y cynllun ariannol ar gyfer 2020-21 ac ar gyfer y cyfnod hyd at 2022-23 â'r Bwrdd ym mis Ionawr 2020. Amlinellodd orwariant a ragwelir o £24.4 miliwn[7] ar gyfer 2020-21. Roedd rhai o'r tybiaethau yr oedd y ffigurau hyn yn seiliedig arnynt yn cynnwys pwysau chwyddiant/galw o £35.5 miliwn, llai cynnydd yn y cymorth a ddyrannir gan Lywodraeth Cymru o £21.6 miliwn.

45 Cafodd cyllideb 2020-21 ei hailsylfaenu o ganlyniad i asesiad o incwm/gwariant yn 2019-20, yn hytrach na threiglo'r gyllideb hanesyddol fel a wnaethpwyd ar gyfer blynyddoedd blaenorol. Cafodd y dull o ail-sylfaenu'r gyllideb, y cafodd ei argymell gennym ac fel rhan o adolygiad KPMG, ei fabwysiadu er mwyn adlewyrchu'r lefelau staff, costau gweithgarwch a chostau darparu gwasanaethau gwirioneddol yn well, darparu rhagolwg mwy manwl gywir a dibynadwy, a chyflwyno mwy o eglurder ac atebolrwydd. Fodd bynnag, ni ddosbarthwyd llythyrau atebolrwydd ffurfiol i ddeiliaid cyllidebau yn ystod penllanw'r ymateb i COVID-19. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cydnabod nifer o risgiau posibl yn y tymor byr. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- gellid ystyried bod ail-sylfaenu'n gwobrwyo perfformiad gwael yr unedau a orwariodd yn 2019-20;
- bydd angen dadsefydlu swyddi sydd wedi bod yn wag ers peth amser; a'r
- man dechrau ar gyfer alldro 2020-21 fydd sefyllfa o ddiffyg.

46 Roedd y cynllun ariannol ar gyfer 2020-21 yn cynnwys gofyniad uchelgeisiol am arbedion o £22.8 miliwn. Erbyn mis 3, nid oedd y Bwrdd Iechyd wedi gwneud unrhyw arbedion, ac adolygodd ei arbedion a ragwelir i lawr i £5.4 miliwn. Mae hyn yn gadael diffyg mewn arbedion o £17.4 miliwn yn erbyn cynllun ariannol 2020-21. Yn ogystal, mae effaith ariannol COVID-19 yn gorwedd y tu allan i'r costau sydd wedi'u cynnwys yng nghynllun ariannol 2020-21.

[6] Trefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd GIG Cymru

[7] Diwygiwyd y diffyg sylfaenol ar gyfer 2020-21 i £24.7 miliwn ym mis 3.

47 Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £39.8 miliwn o gyllid ar gyfer COVID-19 hyd yn hyn, gan leihau cyfanswm y diffyg a ragwelir o £140 miliwn i £100.7 miliwn erbyn mis 3. Mae hyn yn cynnwys y diffyg sylfaenol o £24.7 miliwn, yn ogystal â'r £76 miliwn sy'n gysylltiedig â COVID-19. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ganolbwyntio ar gyflawni ei gynllun sylfaenol ac nid yw wedi cymryd yn ganiataol y bydd yn cael unrhyw gyllid pellach gan Lywodraeth Cymru. Mae'n cydnabod effaith y gostyngiad mewn gwariant gweithgarwch a gynllunnir i wrthbwyso'r costau sy'n gysylltiedig â COVID-19, gan ganolbwyntio ar leihau cyfraddau rhediadau ariannol a chan adolygu ei ragolwg yn barhaus ochr yn ochr â gwneud gwaith cynllunio gweithredol chwarterol. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd y Bwrdd Iechyd yn gallu talu'r costau parhaus sy'n gysylltiedig â COVID-19 heb fynd i ddiffyg cynyddol sylweddol neu heb gyllid ychwanegol.

## Mae'r Bwrdd Iechyd yn ystyried ei sefyllfa ariannol yn y tymor hwy ac mae'n fwriad ganddo fantoli'r gyllideb ymhen tair blynedd, ond cafodd ei gynllun ei ddatblygu cyn dechrau'r achosion o COVID-19

48 Er nad oes gan y Bwrdd Iechyd IMTP cymeradwy, mae cynllun ariannol tymor hwy ar waith ar gyfer 2020-2023. Mae'n rhagweld diffyg o £12.6 miliwn yn 2021-22 a gwarged o £0.8 miliwn yn 2022-23. Mae'r cynllun yn seiliedig ar bwysau chwyddiant/galw amcangyfrifedig, codiadau dyrannu Llywodraeth Cymru ac arbedion cyson wedi'u cynllunio o £24 miliwn yn 2021-22 a 2022-23. Mae'n nodi uchelgais glir i fantoli'r gyllideb o fewn y tair blynedd nesaf.

49 Sylfaen y cynllun ariannol ar lefel uchel yw rhaglen o arbedion dros dair blynedd, sy'n cynnwys cyfres o gyfleoedd i gynyddu effeithlonrwydd sydd wedi'u llywio gan adolygiad KPMG yn 2019. Mae cafeatau'n perthyn i'r rhagolygon hyn o safbwynt sawl tybiaeth, ac mae risg bosibl y gallai'r pwysau chwyddiant/galw yn y dyfodol fod wedi'u tanddatgan. Yn ogystal, efallai na fydd modd cyflawni'r arbedion angenrheidiol, ac fel y nodwyd yn ein hadroddiad ISA260, mae gan y Bwrdd Iechyd sylfaen gostau lai o faint i wneud arbedion ohoni o ganlyniad i'r newid yn ffin Pen-y-bont ar Ogwr.

50 Cafodd y cynllun tair blynedd ei sefydlu cyn achosion cyntaf COVID-19 ac felly bydd y pandemig yn cael effaith arno. Mae swm yr arbedion ar gyfer 2020-21 yn barod yn sylweddol llai na'r hyn sy'n angenrheidiol, sy'n debygol o arwain at ddiffyg mwy o faint yn 2020-21, ac at effaith yn ei thro ar gyflawni'r bwriad o fantoli'r gyllideb ymhen tair blynedd. Gwnaethom argymhellion yn flaenorol ynghylch gosod targedau arbedion realistig a datblygu'r defnydd o systemau costio, a byddwn yn cynnal gwaith dilynol ar hyn y flwyddyn nesaf. Fodd bynnag:

- mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod cyflwyno'r ffyrdd gwahanol o weithio ac o reoli llifoedd cleifion ar garlam, yr oedd eu hangen yn sgil y pandemig COVID-19, yn cynnig cyfleoedd ar gyfer darparu gwasanaethau mewn modd gwahanol ac yn fwy effeithlon. Gallai hyn helpu i leihau lefel hanesyddol y costau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau.

- ceir tystiolaeth fod y Bwrdd Iechyd yn cymryd camau gweithredu ynghylch sawl argymhelliad gan KPMG yn gynnar yn 2020 i wella manwl gywirdeb y broses ragweld, cyflymu'r rhaglenni arbedion, a chynyddu atebolrwydd am heriau ariannol ar draws y sefydliad a pherchenogaeth drostynt. Ceir mwy o drafodaeth isod am y camau gweithredu a gymerwyd, er ei bod yn dal yn rhy gynnar i ddod i gasgliad o safbwynt eu heffeithiolrwydd.

## Rheolaethau ariannol

### Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal rheolaethau ariannol priodol ac mae wedi parhau i gryfhau ei waith rheoli ariannol wrth wynebu'r her o ymgorffori gwelliannau'n gyflym

#### Mae'r Bwrdd Iechyd yn achub ar gyfleoedd i wella er mwyn cryfhau ei waith rheoli ariannol ac mae cyflymder y cynnydd yn hanfodol bwysig ar gyfer cyflawni adferiad ariannol

51 Gwnaeth adolygiad KPMG argymhellion ar gyfer cryfhau gwaith cynllunio ariannol a rheoli ariannol. Er ei bod yn bosibl fod yr argyfwng COVID-19 wedi cyfyngu ar eu cyflymder,[8] mae camau gweithredu ar waith sy'n adlewyrchu materion rydym wedi'u hamlygu'n flaenorol drwy ein hasesiadau strwythuredig. Yn ogystal ag ail-sylfaenu cyllidebau 2020-21 ac ymgorffori cyfleoedd i wella effeithlonrwydd mewn cynlluniau arbedion, mae camau gweithredu'n cynnwys y canlynol:

- sefydlu Grŵp Perfformiad a Rheoli Ariannol i gryfhau atebolrwydd, gosod naws proses yr adferiad ariannol, a chynyddu arweinyddiaeth a pherchenogaeth glinigol;
- disodli cyfleoedd gwerth uchel â rhaglenni trawsnewid gofal a ddatblygwyd ar y cyd gan unedau gwasanaethau sydd â pherchenogaeth arnynt; a
- chreu dogfennaeth glir ar gyfer cynlluniau arbedion y gellir ei theilwra gan ddibynnu ar raddfa'r arbedion.

52 Mae'r adran gyllid hefyd yn adolygu ffyrdd o weithio yn dilyn adolygiad Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) o'r swyddogaeth gyllid yn 2019. Mae ystyriaeth wrthi'n cael ei rhoi i sut y gall y swyddogaeth addasu orau a dod yn fwy effeithiol, gan ganolbwyntio ar y canlynol:

- cryfhau ymgysylltiad â deiliad cyllidebau a'r hyfforddiant ar eu cyfer;
- asesu gallu'r tîm cyllid,[9] i ba raddau mae'n rhannu'r un lleoliad, a'i strwythur; ac

[8] Mae gwaith yn parhau ar y cynllun gweithredu KPMG ar ffurf ddrafft, ond disgwylir iddo gael ei gymeradwyo yn ystod cyfarfod y Bwrdd ym mis Medi.

[9] Gwnaethom nodi gallu cyfyngedig y tîm cyllid yn ein hasesiad strwythuredig ar gyfer 2019 o ganlyniad i golli staff cyllid i fyrddau iechyd eraill.

- adolygu'r rhan y mae partneriaid busnes yn ei chwarae wrth ddwyn trefniadau i gyfrif.

53 Yn ystod ein gwaith ar y cyfrifon terfynol yn 2019-20, gwnaethom nodi'r ffordd effeithlon ac amserol roedd y tîm cyllid yn rheoli'r gwaith cyfrifon ar gyfer diwedd y flwyddyn, a gyd-ddigwyddodd â brig haint COVID-19. Yn ystod ein hasesiad strwythuredig ar gyfer 2020, gwnaethom hefyd arsylwi ar fwy o ffocws ar afael a rheolaeth ariannol, ac ar sylw parhaus i gamau gweithredu i fynd i'r afael â chanfyddiadau KPMG yn ystod trafodaethau'r Bwrdd a phwyllgorau.

54 Mae mewnwelediad i'r camau gweithredu sydd eu hangen er mwyn cydio yn y gwaith yn well er mwyn sicrhau adferiad ariannol yn y tymor hwy wedi bod yn amlwg ers y ddwy flynedd diwethaf, er bod newidiadau ar lefel cyfarwyddwyr a'r broses drosglwyddo o Ben-y-bont ar Ogwr wedi cael effaith ar gyflymder y cynnydd. Mae angen cyflymu hyn wrth symud ymlaen os yw'r Bwrdd Iechyd am gyflawni ei nod o fantoli'r gyllideb ymhen tair blynedd.

## Mae mecanweithiau ar gyfer cofnodi, olrhain a dilysu gwariant sy'n gysylltiedig â COVID-19 wedi'u sefydlu

55 Ar ddechrau'r pandemig, cafodd canolfan gost unigol ei sefydlu er mwyn casglu costau refeniw pryniadau er mwyn bod yn barod ac ymbaratoi ar gyfer y pandemig. Dan gyfarwyddyd partneriaid busnes a rheolwyr cyllid, defnyddiodd pawb y ganolfan gost hon wrth brynu at y dibenion hyn. Wedi hynny, sefydlwyd canolfannau cost ychwanegol er mwyn casglu gwybodaeth am wariant ar eitemau penodol sy'n gysylltiedig â COVID-19, fel costau'n ymwneud ag ysbytai maes a phrofi cymunedol.

56 Mae costau ar lefel uned a chostau anuniongyrchol sy'n berthnasol i COVID-19 hefyd wedi'u casglu. Enghraifft o hyn yw lle mae mannau gwasanaeth wedi'u dynodi ar gyfer trin cleifion COVID-19 neu lle dosbarthwyd cyffuriau drytach i gleifion allanol penodol er mwyn lleihau'r angen am ymyriadau mwy dwys neu ymweliadau ag ysbytai. Ceir cod ar wahân ar gyfer gwariant cyfalaf. Mae'r ceisiadau hyn wedi'u hawdurdodi gan y tîm cyllid cyfalaf. Byddai gwariant o'r fath hwn yn cynnwys peiriannau anadlu a chyfarpar ar gyfer ysbytai maes.

57 Sefydlwyd trefniadau dilysu ochr yn ochr â'r gwaith sefydlu canolfannau cost. Mae'r ganolfan orchymyn COVID-19 ac arweinydd yr adran gyllid yn adolygu adroddiad am yr holl bryniadau yn ddyddiol er mwyn dilysu taliadau ar gyfer y ganolfan gost COVID-19. Dychwelir unrhyw ymholiadau i'r swyddog prynu er mwyn ceisio eglurhad pellach, neu addasiad, cyn cymeradwyo costau fel rhai sy'n gysylltiedig â COVID-19 ac awdurdodi archebion. Fod bynnag, golygodd swm y pryniadau ar gyfer bod yn barod ac ymbaratoi ym mis Ebrill fod sicrhau bod adolygiad manwl o bryniadau'n digwydd yn heriol ar yr adeg honno, gan arwain at ôl-groniad am gyfnod byr.

58 Mae cofnodion penderfyniadau yn eu lle ar draws meysydd gwariant, a chafodd proses adolygu fisol ei sefydlu ym mis 2 er mwyn herio penderfyniadau gwariant

sy'n gysylltiedig â COVID-19 a'u dilysu. Mae cofnodion penderfyniadau yn eu lle ar gyfer pob pryniad sylweddol (h.y. dros £0.75 miliwn). Fodd bynnag, er y disgwylir hefyd fod unedau'n cynnal cofnodion penderfyniadau, bu rhai bylchau yn y cofnodion hyn yn ystod camau cyntaf y pandemig. Yn ogystal, ni chafodd dull seiliedig ar dempled ei gyflwyno'n llawn nes mis 3, gan beri anghysondeb o ran manylion ac o ran arddangos ystyriaeth i werth am arian yn y cofnodion cynharach. Gwnaethom adolygu'r cofnod o wneud penderfyniadau ar gyfer cyfarpar ysbyty maes Llandarcy, a chanfyddom ei fod yn amlinellu'r penderfyniad, y canlyniad a fwriadwyd, y canlyniadau ariannol a'r gymeradwyaeth â lefel resymol o fanylder, gan gofnodi'r tybiaethau y tu ôl i'r broses o wneud penderfyniadau. Bydd yr adran archwilio mewnol yn cwblhau gwaith samplu ychwanegol ar gofnodion penderfyniadau fel rhan o'i hadolygiad llywodraethu cyflym.

59 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi mesurau lliniaru yn eu lle ar gyfer y risgiau posibl (y nodir uchod), gan gynnwys, er enghraifft, cwblhau'r templed cofnod penderfyniadau gofynnol yn ôl-weithredol lle bo angen, ac alinio adroddiadau unedau ar gostau sy'n gysylltiedig â COVID-19 â gofynion diwygiedig Llywodraeth Cymru o safbwynt datganiadau monitro. Yn ogystal, mae'r Bwrdd Iechyd wedi comisiynu Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP) i adolygu'r holl wariant sy'n gysylltiedig â COVID-19 dros drothwy de minimis er mwyn rhoi sicrwydd pellach. Ar adeg ysgrifennu ein hadroddiad, nid oedd yr adolygiad hwn wedi dod i ben.

## Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithredu o fewn rheolaethau ariannol a oedd eisoes yn bodoli yn ystod yr ymateb i COVID-19

60 Ychydig iawn o newid a ddigwyddodd mewn rheolaethau ariannol creiddiol yn ystod y pandemig ac roedd Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a oedd eisoes yn bodoli yn parhau i fod yn gymwys. Asesodd y Bwrdd Iechyd y rheolaethau a therfynau dirprwyedig cyfredol, gan ddod i'r casgliad fod y lefelau cyfredol yn ddigonol ar gyfer gweithredu mewn modd effeithlon ac ymatebol yn ystod yr argyfwng COVID-19, wrth gynnal llywodraethu ariannol. Yn benodol:

- mae'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yn cwmpasu gweithdrefnau lle gallai fod angen diddymu trefniadau tendro (yn unol ag arweiniad y Trysorlys a Llywodraeth Cymru). Cafodd y broses o ddatgan buddiant ei chynnal a dim ond dau gam gweithredu unigol ar gyfer tendr[10] yr adroddwyd amdanynt i'r Pwyllgor Archwilio yn ystod y cyfnod.
- mae'r cynllun dirprwyaethau'n amlinellu terfynau cytunedig yn ôl disgresiwn, yr ystyriwyd eu bod yn ddigonol ar gyfer ymateb yn ystod y pandemig.

[10] Yn ddarostyngedig i adolygiad pellach gan yr adran archwilio mewnol a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

- mae’r terfynau awdurdodi sydd wedi'u gosod yn Oracle[11] ac mae'r drefn o beidio â thalu oni bai fod archeb brynu[12] ar gael a heb eu newid, a cheir trywydd archwilio er mwyn darparu tystiolaeth o derfynau. Ar gyfer pryniadau o dros £75,000 sydd wedi'u dyrannu i god ymateb iechyd i COVID-19 (7004), mae'r gofyniad am awdurdodi'n cael ei nodi o fewn yr adran gyllid.
- ni fu unrhyw newid neu lacio o safbwynt llofnodwyr awdurdodedig.
- mae taliadau wedi parhau i ddigwydd drwy Oracle, ac, yn unol â’r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, mae'r Bwrdd Iechyd yn adrodd na chafodd taliadau ymlaen llaw eu gwneud ar gyfer pryniadau sy'n gysylltiedig â COVID-19 (er bod rhai cyflenwyr wedi gofyn amdanynt yn ystod y pandemig ar gyfer eitemau fel cyfarpar diogelu personol).
- ni fu newid ym mhrosesau derbyn nwyddau er gwaethaf y cynnydd mewn archebion o gyfarpar diogelu personol.
- arhosodd y gymeradwyaeth ar gyfer staff locwm a staff asiantaeth yr un peth.

61 Mae gan gyfarwyddwyr unedau ddirprwyaeth ddigonol ar gyfer y rhan fwyaf o bryniadau mawr, ond cafwyd cymeradwyaeth bellach drwy'r grŵp Gorchymyn Aur a'r Bwrdd llawn lle bo angen. Roedd y trefniant cam gweithredu gan y cadeirydd hefyd ar gael ar gyfer unrhyw benderfyniad brys os oedd angen – er enghraifft, gwariant ar gyfer sefydlu ysbyty maes.

62 Cafodd y gwaith paratoi ar gyfer y cyfrifon blynyddol ei gwblhau erbyn y dyddiad cau diwygiedig, sef 22 Mai. Ni wnaeth ein harchwiliad o'r cyfriflenni ariannol nodi unrhyw broblemau sylweddol a fyddai'n awgrymu bod rheolaethau ariannol wedi'u gwanhau neu wedi'u hosgoi.

63 Ar hyd chwarter 1 2020-21, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cael mynediad i welyau ysbytai annibynnol ychwanegol. Cafodd gwaith comisiynu'r capasiti hwn ei wneud yn seiliedig ar ddull Cymru gyfan gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC), a chafodd ei ariannu gan Lywodraeth Cymru.

64 Cytunwyd ar y telerau i gefnogi sefydlu trefniadau les ar gyfer ysbytai maes gyda phartneriaid awdurdodau lleol, a chafodd cytundeb cydweithiol ffurfiol ei gymeradwyo yn ystod adeg ein gwaith maes. Yn unol â threfniadau Llywodraeth Cymru, mae cyllid ar gyfer y costau hyn wedi llifo trwy'r Bwrdd Iechyd i'w bartneriaid awdurdodau lleol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sicrhau bod ei gofnodion gwariant ar gael i'w bartneriaid graffu arnynt. Mae Canolfan Sicrwydd Integredig Llywodraeth Cymru wedi cynnal adolygiad o ysbytai maes Abertawe yn ddiweddar ar gyfer gwiriadau diwydrwydd dyladwy. Nid oedd yr adolygiad hwn wedi'i gwblhau

[11] System rheoli ariannol ar gyfer cofnodi trafodion, cynnal balansau cyfrifon a llunio cyfriflenni ariannol.

[12] Archeb brynu yw'r ddogfen sy'n cadarnhau archeb a anfonir oddi wrth brynwr i werthwr ac sy'n awdurdodi pryniad. Mae'r GIG fel arfer yn gweithredu polisi dim taliad heb archeb brynu.

ar adeg ysgrifennu ein hadroddiad a bydd angen i'r Bwrdd Iechyd ymateb i unrhyw argymhellion a wneir.

65 Yn ystod y pandemig, bu cynnydd sylweddol mewn rhoddion elusennol ac ariannol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymhwyso safonau ei bolisi a'i broses cynnal busnes ac mae wedi cyfeirio at arweiniad y Gymdeithas Rheoli Cyllid Gofal Iechyd (HFMA)[13] ynghylch defnyddio cronfeydd elusennol ar gyfer COVID-19. Mae rhoddion a dderbyniwyd yn ganolog wedi'u cofnodi ac mae pryniadau dillad a nwyddau ymolchi a wnaed drwy Amazon Wishlist wedi bod yn gymharol hawdd eu cofnodi/cydnabod eu derbyn. Cafodd y polisi rhoddion a lletygarwch ei gymhwyso mewn achosion lle derbyniodd unedau roddion ac anrhegion bach, er y cynyddodd yr her o gofnodi'r rhain yn ganolog o ganlyniad i'r cynnydd mewn rhoddion. Roedd yn rhaid rhoi ystyriaeth hefyd i eitemau bach lluosog a dderbyniwyd yn ganolog o safbwynt trefniadau dosbarthu. Yn sgil y profiad hwn, mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu diweddaru ei bolisi ar gronfeydd elusennol a'i bolisi ar safonau cynnal busnes.

## Monitro ac adrodd

### Mae goruchwyliaeth amserol a gwaith craffu ar y sefyllfa ariannol yn parhau ac yn cael eu cefnogi gan waith adrodd cynhwysfawr

66 Er y cafodd y Pwyllgor Perfformiad a Chyllid ei wneud yn segur dros dro yn ystod brig y pandemig COVID-19, llwyddodd y Bwrdd i gynnal goruchwyliaeth ac i graffu ar y sefyllfa ariannol. Derbyniodd y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio adroddiadau amserol ar gyfer pob un o'u cyfarfodydd. Mae trafodaethau wedi bod yn agored a chafwyd gwaith craffu da gan aelodau annibynnol. Yn ogystal, cyfarfu cadeirydd y Pwyllgor Perfformiad a Chyllid a'r Cyfarwyddwr Cyllid tra oedd y pwyllgor yn segur. Ailddechreuodd cyfarfodydd misol y Pwyllgor Perfformiad a Chyllid ym mis Gorffennaf.

67 Mae'r gwaith adrodd yn gynhwysfawr ac mae gwybodaeth yn gyson â'r hyn a ddarparwyd i Lywodraeth Cymru drwy ddatganiadau monitro misol. Mae'r adroddiadau'n darparu darlun clir o safbwynt y sefyllfa ariannol, yr heriau a'r risgiau, a'r camau gweithredu lliniarol sy'n cael eu cymryd. Maent hefyd yn cynnwys esboniadau o wariant sy'n gysylltiedig â COVID-19 ac nad yw'n gysylltiedig ag ef, a lefelau'r arbedion y methodd y Bwrdd Iechyd â'u gwneud. Mae'r Bwrdd yn ymrwymedig i sicrhau ei fod yn gweithredu mewn modd tryloyw a'i fod yn dangos tystiolaeth glir ynghylch penderfyniadau gwario mewn perthynas â COVID-19. Mae'r Bwrdd hefyd yn manteisio ar gyngor perfformiad a chyllid arbenigol o ganlyniad i benodi cynghorydd arbennig i'r Bwrdd eleni.

[13] Y Gymdeithas Rheoli Cyllid Gofal Iechyd (HFMA) yw'r corff proffesiynol ar gyfer staff cyllid ym maes gofal iechyd.

68 Yn weithredol, mae perfformiad ariannol wedi parhau i fod yn gydran allweddol o drefniadau perfformiad, ac yn destun goruchwyliaeth reolaidd ar lefel uned, lefel uwch-arweinwyr, a lefel y tîm gweithredol. Yn ystod y pandemig, mae gwariant sy'n gysylltiedig â COVID-19 hefyd wedi'i gynnwys.

69 Cafodd Grŵp Rheoli Perfformiad a Chyllid (y cyfeiriwyd ato ym **mharagraff 51**) ei sefydlu cyn y pandemig COVID-19 er mwyn rhoi mwy o amser i uwch-swyddogion ganolbwyntio ar y sefyllfa ariannol. Roedd aelodaeth y grŵp yn cynnwys y Prif Swyddog Gweithredol a phob un o'r cyfarwyddwyr gwasanaethau a'r cyfarwyddwyr gweithredol. Fodd bynnag, oherwydd yr angen brys i ymateb i'r argyfwng COVID-19, cafodd y grŵp ei wneud yn segur, ond disgwylir iddo ailymgynnull yn fuan. Dylai'r grŵp gynnig cyfrwng i'r uwch-arweinwyr gael dealltwriaeth well o'r sefyllfa ariannol drwy waith dadansoddi manwl, a chael yr afael sydd ei hangen ar y gwaith i sicrhau adferiad ariannol.

# Cynllunio gweithredol

70 Ystyriodd ein gwaith gynnydd y Bwrdd Iechyd o ran datblygu a chyflawni cynlluniau gweithredol chwarterol i gefnogi'r ymateb parhaus i COVID-19 ac i ddarparu gwasanaethau a swyddogaethau hanfodol eraill yn unol ag arweiniad cynllunio Llywodraeth Cymru. Ar adeg cyflawni ein gwaith, roedd y ffocws ar wasanaethau hanfodol a'r nod o adfer gweithgareddau normal ac arferol pan fyddai hynny'n ddiogel ac yn ymarferol.

71 Canfyddom fod **cynlluniau gweithredol wedi'u llywio gan waith modelu data, ymrwymiad clir i ymgysylltu â rhanddeiliaid, i weithio rhanbarthol, ac i lesiant staff, a bod trefniadau ar gyfer monitro cynnydd a pherfformiad. Fodd bynnag**, **bydd brig arall mewn achosion o COVID-19 yn cyflwyno her sylweddol o safbwynt y gweithlu.**

## Datblygu'r cynllun

### Mae cynlluniau gweithredol yn cefnogi'r broses o ailddechrau gwasanaethau ac yn cydnabod blaenoriaethau'r cynllun gwasanaethau clinigol, ac mae'r hyn a ddysgwyd o'r pandemig yn ffurfio rhan allweddol o raglen ailosod ac adfer y sefydliad

#### Mae cynlluniau chwarterol y Bwrdd Iechyd wedi'u llywio gan waith modelu data ac ymgysylltu â rhanddeiliaid

72 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithio'n dda gyda'i Fwrdd wrth ddatblygu cynlluniau chwarterol. Cafodd cynlluniau ar gyfer chwarter 1 a chwarter 2 eu llunio'n gyflym a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru yn brydlon. Gan fod dyddiadau cau cyflwyno Llywodraeth Cymru yn digwydd cyn cyfarfodydd y Bwrdd, cafodd y ddau gynllun eu cadarnhau'n ffurfiol yn ystod y cyfarfod Bwrdd canlynol. Fodd bynnag, aeth cynllun

chwarter 2 drwy broses graffu gan yr aelodau annibynnol a chafodd ei gymeradwyo trwy gamau'r cadeirydd cyn cael ei gyflwyno. Roedd cynlluniau'n gyson â fframwaith cynllunio gweithredol y GIG ac roedd y Bwrdd Iechyd yn ymatebol i adborth gan Lywodraeth Cymru.

73 Ymgysylltodd y Bwrdd Iechyd â rhanddeiliaid, a chydweithredodd â nhw drwy gydol y pandemig, a helpodd hynny i lywio cynlluniau chwarterol. Roedd ymgysylltu'n cynnwys y canlynol, er enghraifft:

- briffiau wythnosol am faterion allweddol gyda'r Cyngor Iechyd Cymuned, a thrafodaethau rheolaidd rhwng y cadeirydd a phrif swyddog y Cyngor Iechyd Cymuned;
- cyfarfodydd wythnosol pan oedd arweinwyr a phrif weithredwyr awdurdodau lleol yn adeiladu ar y Bartneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg hirsefydlog;[14] a
- gwnaeth y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid a'r Grŵp Cyfeirio Hygyrchedd ailymgynnull yn rhithwir o fis Gorffennaf 2020 ymlaen, a gwnaeth rhith-gyfarfodydd y Rhwydwaith Sector Gwirfoddol Rhanbarthol barhau o fis Mai ymlaen.

74 Mae gwaith modelu data wedi bod yn rhan integredig o ymwybyddiaeth y Bwrdd Iechyd o'r sefyllfa yn ystod y pandemig a'i waith o wneud penderfyniadau. Mae wedi llywio gwaith modelu gallu/galw ar gyfer gwaith cynllunio gweithredol, ac mae gwaith profi senarios wedi bod yn mynd rhagddo ar gyfer chwarter 3 a chwarter 4.

## Mae gwasanaethau hanfodol wedi cael eu cynnal ac mae dull darbodus wedi'i fabwysiadu ar gyfer ailddechrau gwasanaethau eraill yn ddiogel

75 Yn ystod y pandemig, llwyddodd y Bwrdd Iechyd i gynnal pob gwasanaeth hanfodol hyd yn oed lle'r oeddent yn cael eu darparu mewn ffyrdd gwahanol. Mae clinigwyr wedi derbyn cymorth wrth gynnal gwasanaethau cleifion allanol drwy gyfarfodydd wyneb yn wyneb, a rhith-ymgynghoriadau â blaenoriaeth, a fu'n bosibl oherwydd datblygiadau digidol cyflym fel Attend Anywhere, See on Symptoms a Consultant Connect.

76 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dilyn dull pwyllog o adfer y gwasanaethau mwy arferol, gan sicrhau bod diogelwch cleifion a staff yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth a lleihau'r angen i gyfyngu ar y gwasanaethau pe byddai brig arall mewn achosion o COVID-19. Mae'r dull wedi bod yn bwyllog ac mae wedi golygu cynnal asesiadau effaith o'r ansawdd er mwyn sicrhau bod y broses o adfer gweithgareddau wedi'i rheoli a'i bod yn destun asesiadau risg ac y rhoddwyd ystyriaeth i'r rhyngddibyniaethau o safbwynt ailddechrau gwasanaeth.

[14] Yn ystod y pandemig, cymerardwyodd bartneriaid y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol drefn lywodraethu ddiwygiedig, er nad ydym wedi adolygu hon fel rhan o'n gwaith.

77 Mae grŵp cynghori clinigol yn darparu cyngor clinigol ar gyfer ailgyflwyno gwasanaethau a gofal cleifion mewn modd diogel. Mae proses ar gyfer blaenoriaethu gwaith clinigol yn ei lle er mwyn sicrhau mai'r cleifion sydd â'r angen clinigol mwyaf sy'n cael blaenoriaeth. Mae mesurau cadw pellter cymdeithasol, a chreu parthau mewn ysbytai i wahanu mannau ar gyfer COVID-19 oddi wrth fannau eraill, yn eu lle, ynghyd â threfniadau cyn llawdriniaeth diwygiedig.

## Mae'r hyn a ddysgwyd, arloesedd a ffyrdd newydd o weithio yn llywio cynlluniau a model gweithredu'r sefydliad ac mae ffocws ar y cynllun gwasanaethau clinigol hirdymor

78 Sefydlodd y Bwrdd Iechyd raglen ailosod ac adfer drosfwaol, a oedd yn cynnwys ffrydiau gwaith i gynllunio gwaith adfer gwasanaethau ac i fapio'r llwybr ar gyfer gwneud hynny a'r newidiadau angenrheidiol mewn gwasanaethau. Mae grŵp adfer, dysgu ac arloesedd, a sefydlwyd ym mis Ebrill 2020, yn cefnogi'r rhaglen. Mae'n darparu goruchwyliaeth dros gynlluniau adfer y Bwrdd Iechyd ac mae'n arwain ar y gwaith o gipio a chymhwyso'r hyn a ddysgwyd o ddulliau arloesol a ffyrdd newydd o weithio a ddatblygwyd yn ystod y pandemig.

79 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi adolygu ei ymateb i COVID-19 hyd yn hyn ac mae wedi cofnodi'r holl newidiadau i wasanaethau a llwybrau, ac mae wedi adrodd am y risgiau, y buddion a'r gwersi a ddysgwyd i'r Bwrdd. Mae arolwg ‘Crisialu Dysgu o Newid’ hefyd wedi'i lansio er mwyn casglu safbwyntiau a syniadau gan staff ynghylch trefniadau a ffyrdd o weithio newydd sydd i'w cadw, arferion o cyn yr argyfwng nad ydynt bellach yn addas at y diben, ac argymhellion ar gyfer gweledigaeth at y dyfodol. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn bwriadu ceisio safbwyntiau cleifion ynghylch y rhyngweithiadau rhithwir a gyflwynwyd er mwyn sicrhau hygyrchedd a phrofiad cleifion da.

80 Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymrwymedig i ymgorffori arloesedd a newid cadarnhaol (yn hytrach na dychwelyd i hen arferion). Mae'n myfyrio ar wersi a ddysgwyd yn nhermau prosesau, gwasanaethau a ffyrdd o weithio er mwyn gwella'i fodel gweithredu. Er bod hyn yn cael ei arwain ar hyn o bryd gan y rhaglen ailosod ac adfer, ceir synergeddau clir â gwaith y rhaglen drawsnewid a ddechreuodd yn 2018. Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd benderfynu sut y bydd y rhaglenni hyn yn alinio â'i gilydd yn y dyfodol, a sut y byddant yn rhyng-gysylltu â chynlluniau galluogi pum mlynedd y Cynllun Gwasanaethau Clinigol.

81 Wrth ymateb i'r pandemig ac ailddechrau gwasanaethau, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cadw egwyddorion y Cynllun Gwasanaethau Clinigol mewn golwg wrth wneud y newidiadau angenrheidiol i lwybrau a chyfluniad gwasanaethau. Mae'r gwaith o weithredu rhai elfennau o'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol wedi'i gyflymu, fel datblygu pwynt mynediad unigol ar gyfer gwasanaethau pediatrig. Ceir cynnydd hefyd yn y gwaith o ganoli gwasanaethau meddygaeth acíwt, a allai helpu i gynnal darpariaeth gwasanaethau wrth i bwysau'r gaeaf nesáu a'r posibilrwydd o frig arall mewn achosion o COVID-19.

## Adnoddau ar gyfer cyflawni'r cynllun

### Mae ymroddiad i lesiant staff yn amlwg ac mae gwaith modelu a datrysiadau rhanbarthol yn llywio cynlluniau adnoddau, ond pe byddai ail frig mewn achosion, mae niferoedd staff yn parhau i fod yn risg sylweddol

#### Mae datrysiadau rhanbarthol wrthi'n cael eu datblygu, ac mae gwaith profi senarios yn llywio'r ddarpariaeth gwasanaethau a chynlluniau adnoddau

82 Mae'r Bwrdd Iechyd yn ceisio datrysiadau rhanbarthol, yn enwedig â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, gan adeiladu ar y cydberthynas cadarn a oedd eisoes yn bodoli. Yn ystod chwarter 2, mae'r byrddau iechyd yn ystyried cynlluniau ar gyfer ysbyty maes rhanbarthol, a cheir cynigion ar gyfer dull blaenoriaethu a rennir ar draws gwelyau rhanbarthol, model gweithlu rhanbarthol, a gwasanaethau ar y cyd mewn meysydd arbenigol eraill. Mae trafodaethau eraill hefyd yn cael eu cynnal â byrddau iechyd cyfagos, y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys (EASC[15]) a Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC) i archwilio datrysiadau o safbwynt gwasanaethau arbenigol a chomisiynu. Bydd mynediad i'r gwasanaethau hyn hefyd yn seiliedig ar flaenoriaethu clinigol.

83 Mae offeryn modelu data'r Bwrdd Iechyd yn ei gwneud yn bosibl cyflawni gwaith olrhain ar draws amrediad o fetrigau, gan gynnwys nifer y gwelyau a'u defnydd, y galw (sy'n gysylltiedig â COVID-19 neu beidio), y gweithlu, a thybiaethau cadw pellter cymdeithasol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn glir ynghylch effaith cadw pellter cymdeithasol ar gynhyrchiant a gofynion adnoddau o safbwynt adfer gweithgareddau, fel theatrau ac endosgopeg. Mae'r model Warwick[16] wedi'i gymhwyso i waith dadansoddi'r gweithlu, ac mae galluoedd rhagfynegol yr offeryn data yn ei gwneud yn bosibl modelu senarios. Mae'r rhain yn destun gwaith gwirio synnwyr yn erbyn gwaith modelu cenedlaethol. Mae grŵp cynllunio gweithredol wrthi'n ystyried opsiynau ynghylch gallu ar gyfer brigau at y dyfodol yn enwedig ac yn datblygu cynlluniau, ac yn eu profi, yn erbyn senarios amrywiol.

[15] Comisiynydd y Gwasanaeth Ambiwlans Brys.

[16] Offeryn dadansoddol ar gyfer rheoli adnoddau dynol.

## Mae'r Bwrdd Iechyd wedi wynebu'r heriau sy'n gysylltiedig â'r gweithlu yn sgil COVID-19, mae wedi cymryd camau gweithredu i gefnogi llesiant staff, ac mae'n lliniaru risgiau o ran niferoedd y staff, er y byddai risgiau'n parhau pe fyddai ail frig mewn achosion

84 Mae'r Bwrdd Iechyd, yn yr un modd â rhai eraill, wedi wynebu heriau anferth wrth ymateb i'r pandemig o safbwynt y gweithlu. O ganlyniad i salwch sy'n gysylltiedig â COVID-19, gwnaeth 1,700 o aelodau o staff hunan-ynysu neu warchod. Mewn ymateb i hyn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud y canlynol:

- recriwtio mwy na 1,495 o aelodau o staff, gyda'r rhan fwyaf yn cael eu cyflogi ar gontractau banc neu am gyfnod penodol, yn ogystal â sicrhau bod myfyrwyr nyrsio a meddygaeth ar gael;
- monitro absenoldeb staff yn ddyddiol drwy ddefnyddio dangosfwrdd data'r grŵp Gorchymyn Aur;
- hwyluso gweithio o bell er mwyn cefnogi pobl sy'n gwarchod, sy'n hunan-ynysu ac sy’n cadw pellter cymdeithasol;
- ail-leoli staff er mwyn cefnogi gwasanaethau'r rheng flaen neu ddiogelu aelodau o staff sydd mewn perygl; a
- defnyddio’r uned staff nyrsio ymateb i argyfwng Arian er mwyn sicrhau bod nyrsys ar gael ar draws yr ardal sy'n dod o dan gyfrifoldeb y Bwrdd Iechyd a'u bod yn cael eu defnyddio.

85 Mae sicrhau cyflenwad ac argaeledd y gweithlu yn parhau i fod yn faes risg allweddol i’r Bwrdd Iechyd wrth i waith fynd rhagddo i gynyddu darpariaeth gwasanaethau a gweithgarwch wrth baratoi at unrhyw ail frig mewn achosion o COVID-19. Mae cynlluniau wrth gefn wrthi'n cael eu datblygu er mwyn sicrhau bod gwaith cynllunio gweithlu cynaliadwy ar gyfer y dyfodol yn cael ei gyflawni yn unol â dogfen ddrafft Strategaeth y Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ond hefyd er mwyn sicrhau bod staff ar gael ar gyfer gwelyau ychwanegol pe byddai ail frig mewn achosion o COVID-19.

86 Byddai sicrhau bod nifer digonol o staff ar gael ar gyfer ymchwydd a gorymchwydd (mewn ysbytai maes) yn her sylweddol. Yn unol â Chynllun Gweithredol Ysbytai Maes y Bwrdd Iechyd, mae grŵp wrthi'n archwilio mentrau ar gyfer lliniaru'r risg hon, gan haenu lefelau gofal argyfwng ar gyfer COVID-19 a nodi'r nifer o staff angenrheidiol yn seiliedig ar angen clinigol. Mae Gweithdrefn Gweithredu Safonol yn ei lle ar gyfer uwchgyfeirio er mwyn ysgogi lefelau ymateb, gan ddefnyddio gallu'r Bwrdd Iechyd yn ei gyfanrwydd fel rhan o'r ymateb cychwynnol (craidd ac ymchwydd) cyn defnyddio gwelyau'r ysbytai maes. Dylai cynllun yr ysbytai maes rhanbarthol a model y gweithlu helpu i liniaru risgiau o ran nifer y staff i ryw raddau.

87 Mae llesiant staff yn flaenoriaeth uchel ar gyfer y Bwrdd Iechyd. Mae sylw wedi'i ganolbwyntio ar ddiogelu aelodau o staff ac i sicrhau eu llesiant. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyrraedd rhestr fer ar gyfer gwobr ‘Esteem’ am ei ymateb i lesiant. Roedd mentrau'n cynnwys y canlynol:

- mecanweithiau anffurfiol amrywiol fel ystafelloedd ‘simsanu’ ac ystafelloedd ymlacio ar gyfer staff a brofodd gofid emosiynol yn ystod brig y pandemig.
- cynllun cyfeillio rhwng cyfarwyddwyr gweithredol a chyfarwyddwyr gwasanaethau er mwyn rhoi cymorth.
- ail-lunio gwasanaethau iechyd galwedigaethol er mwyn darparu gwasanaeth saith diwrnod yr wythnos sy’n cynnal proses frysbennu ar gyfer achosion o COVID-19 ac sy’n blaenoriaethu atgyfeirio staff sy’n arddangos symptomau, ac aelodau o'u teuluoedd, i'r uned brofi gymunedol.
- gwasanaeth llesiant estynedig sydd wedi'i gefnogi gan y tîm Seicoleg, Dysgu a Datblygu Iechyd Meddwl a'r tîm Caplaniaeth i ddarparu cymorth rhithwir i unigolion a gwasanaethau llwybrau ar gyfer profiadau o brofedigaeth a phrofiadau trawmatig sy'n gysylltiedig â COVID-19 ar gyfer unedau fel gofal critigol.
- model rheoli risg ar gyfer trawma (TRiM) i nodi ac ymateb i arwyddion cynnar o drawma. Wedi'i ariannu gan Elusennau'r GIG, mae'r dull a arweinir gan gymheiriaid wedi'i anelu'n bennaf at staff y rheng flaen, ac mae arweinwyr clinigol a staff goruchwylio wedi'u hyfforddi fel ymarferwyr. Mae rhyw 23 o hyfforddwyr mewnol ar waith a bydd hyfforddiant ar gyfer staff allweddol yn digwydd yn chwarter 2 a chwarter 3.
- rhoi'r offeryn asesu risg i staff ar gyfer Cymru gyfan ar waith er mwyn nodi'r bobl hynny sydd â'r risg uchaf o ddal COVID-19, gan gynnwys pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Mae grŵp adolygu a arweinir gan weithredwyr wrthi'n ystyried canlyniadau risg uchel er mwyn sicrhau bod camau gweithredu priodol yn cael eu cymryd i ddiogelu staff.
- annog staff i gymryd eu gwyliau blynyddol er mwyn cael amser i ffwrdd i ymadfer.

88 Oherwydd y pandemig COVID-19, bu'n rhaid i staff weithio mewn ffyrdd gwahanol dros nos. Cafodd arolwg Llesiant a Gweithio Hyblyg ei lansio ym mis Gorffennaf er mwyn cynnig gwiriad pwysig o ran ‘tymheredd’ y sefydliad a bydd yn helpu i nodi ffyrdd o barhau i wella profiad y gweithlu, gan helpu'r tîm Profiad Staff i barhau â'r gwaith sydd eisoes wedi'i wneud wrth lunio Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (#ShapingSBUHB). Mae'r arolwg hefyd yn ceisio safbwyntiau ynghylch sut y gellir defnyddio cyllid gan Elusennau'r GIG ar gyfer COVID-19 at ddibenion lles staff a chleifion.

## Monitro gwaith cyflenwi'r cynllun

### Ceir gwaith goruchwylio a chraffu da mewn perthynas â'r perfformiad cyffredinol a gwaith cyflenwi'r cynllun gweithredol, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn ail-lunio'r ffordd y mae'n adrodd ar berfformiad ac yn datblygu fframwaith rheoli perfformiad newydd sy'n seiliedig ar y cwadrantau niwed

89 Er bod y trefniadau monitro perfformiad cenedlaethol wedi'i gwneud yn segur i raddau helaeth, mae'r Bwrdd Iechyd wedi sicrhau ei fod wedi parhau i oruchwylio perfformiad ac ymddygiad systemau allweddol, gan gynnwys y systemau ym meysydd gofal nad oedd wedi'i amserlennu, canser a llawdriniaeth. Mae'r gwaith adrodd ar y cynllun blynyddol, a mesurau perfformiad ar gyfer ymyrraeth sydd wedi'i thargedu, hefyd wedi parhau. Mae mecanweithiau monitro'n cynnwys y canlynol:

- adolygiadau gweithredol ac adolygiadau o berfformiad unedau;
- briffiau gan aelodau annibynnol ar alw, gallu a pherfformiad;
- cyfarfodydd arbennig y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a'r Pwyllgor Perfformiad a Chyllid ar destun gwasanaethau hanfodol;
- gwaith craffu gan y Bwrdd, a gwaith adrodd estynedig a thryloyw misol, gan gynnwys trywyddau, ac effaith achosion o COVID-19 ar restrau aros; a
- chyfarfod pwynt cyffwrdd â Llywodraeth Cymru.

90 Mewn perthynas â'r cynllun gweithredol, gwnaeth y Bwrdd Iechyd adrodd ar berfformiad chwarter 1 i'r Bwrdd ym mis Gorffennaf, yn erbyn y camau gweithredu a'r amserlenni a nodwyd yn y cynllun. Roedd yr adroddiad yn cynnwys crynodeb ar lefel uchel o'r camau gweithredu yr oedd wedi'u cwblhau, camau gweithredu a oedd ar ben ffordd a'r rheiny nad oeddent ar y trywydd cywir, ynghyd ag esboniadau ynghylch y camau gweithredu olaf hyn, a cherrig milltir diwygiedig.

91 Mae'r rhan fwyaf o gamau gweithredu chwarter 1 naill ai wedi'u cyflawni neu ar ben ffordd, ac mae 66% wedi'u cwblhau, mae 28% ar ben ffordd, ac mae 6% nad ydynt ar y trywydd cywir. Mae dau o'r camau gweithredu nad ydynt ar y trywydd cywir yn rhai sy'n berthnasol i wasanaethau canser. Cafodd asesiad sylfaenol o wasanaethau hanfodol y Bwrdd Iechyd a hunanasesiad yn erbyn y fframwaith canser eu cwblhau er mwyn rhoi sicrwydd o safbwynt statws y gwasanaethau hyn.

92 Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhoi blaenoriaeth i waith datblygu'r cynllun ar gyfer chwarter 3 a chwarter 4 a fydd angen sicrhau ei fod yn cynnwys y canlynol:

- ffocws ar drywyddau perfformiad, gan gymryd ei allu i addasu ac ymateb i alw amrywiol i ystyriaeth;
- mwy o fanylion ynglŷn â sut y bydd blaenoriaethau allweddol ar gyfer gofal nad yw wedi'i amserlennu/cynllunio ar gyfer y gaeaf, gwasanaethau llawfeddygol, gofal critigol, gwasanaethau diagnostig a gwasanaethau

canser yn derbyn sylw, gan adeiladu ar y camau gweithredu a amlinellwyd mewn cynlluniau blaenorol; a

- sicrhau bod gwaith y cynllun Profi Olrhain Diogelu'n cael ei gefnogi, yn ogystal ag unrhyw raglenni brechu torfol.

93 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi mapio blaenoriaethau allweddol dros y chwech i ddeuddeg mis nesaf er mwyn alinio â'r pedwar cwadrant niwed a ddiffinnir yn Fframwaith Gweithredu GIG Cymru ac mae wrthi'n nodi metrigau adrodd. Fel y gellir cyflawni gwaith craffu ar gynnydd yn erbyn camau gweithredu, ac y gellir rhoi sicrwydd yn ei gylch yn y fforwm priodol, mae pob cam gweithredu wedi'i fapio i bwyllgor Bwrdd er mwyn osgoi ailadrodd trafodaethau a chynnal llwybrau clir ar gyfer uwchgyfeirio ac atebolrwydd. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wrthi'n datblygu fframwaith rheoli perfformiad sy'n seiliedig ar y pedwar cwadrant niwed.

94 Dylai'r Bwrdd Iechyd hefyd ystyried sut mae amcanion strategol y sefydliad ac amcanion y Cynllun Gwasanaethau Clinigol yn alinio â'r pedwar cwadrant niwed. Gwnaethom argymhelliad o safbwynt penderfynu ar fframwaith adrodd ar gyfer y Cynllun Gwasanaethau Clinigol yn 2019, a byddwn yn ailymweld â hyn y flwyddyn nesaf.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.